# DINESYDD
# Mai

PAPUR CYMRAEG
CAERDYDD A'R CYLCH

1980

Rhif 67


# GWEITHRED FYRBWYLL AR SUL Y BLODAU

Mae'n amlwg fod gweithred fyrbwyll yr heddlu yng Nghymru wrth iddynt ysgubo rhyw hanner cant o bobl i rwyd eu hymholiadau i'r ymgyrch losgi tai haf am ddim rheswm gwell na'r ffaith eu bod yn genedlaetholwyr wedi cythruddo llawer o bobl. Mynegwyd y dicter hwnnw mewn ffordd ymarferol pan ddaeth rhyw gant a hanner o bobl ynghyd yng Nghanolfan Gymdeithasol Glan yr Afon ar y 15fed Ebrill i gyfarfod cyhoeddus i drafod erlidigaeth gan yr heddlu yng Nghymru. Trefnwyd y cyfarfod o dan nawdd Ymgyrch Cymru dros Hawliau Dinesig a Gwleidyddol.

Mewn araith rymus, pwysleisiodd Dafydd Elis Thomas fod yn rhaid gweld y weithred hon o fewn fframwaith ehangach na dim ond erlid cenedlaetholwyr o Gymry gan yr heddlu, sef gormes gyffredinol y wladwriaeth ar yr unigolyn gan ddefnyddio'r gyfraith yn arf. Cyfraith un dosbarth yw'r gyfraith bresennol, meddai, cyfraith y dosbarth llywodraethol a'i phwrpas yw diogelu buddiannau'r dosbarth hwnnw, thema a adleisiwyd droeon gan siaradwyr eraill yn ystod y noson. Yr hyn yr oedd angen anelu ato yn y pen draw oedd gwneud y gyfraith yn gyfraith y bobl, nid yn erfyn i'w ddefnyddio yn eu herbyn.

Wedi areithiau gan gynrychiolydd yr NCCL a'r Cynghorydd Paul Flynn, gwahoddwyd nifer o'r bobl yr aed â hwy i'r ddalfa gan yr heddlu i adrodd eu profiadau hwy o'r llawr. Er i'r hanesion am fwnglera'r heddlu a ffolineb eu hymddygiad mewn llawer achos dynnu gwên yma ac acw, darlun difrifol a beintiwyd gan y siaradwyr hyn, o'r heddlu'n "mynd allan i bysgota", chwedl Robert Griffiths, heb fawr syniad am beth yr oeddynt yn chwilio, ond gan ddefnyddio tactegau bygythiol a thwyllodrus, holi am ddaliadau gwleidyddol y bobl yr ymwelwyd â hwy (yn hytrach na gofyn cwestiynau perthnasol i'r ymgyrch losgi), cymryd enwau a chyfeiriadau o ddyddiaduron personol (a defnyddio hynny'n esgus i groesholi'r bobl hynny hefyd) a dwyn pobl i'r ddalfa a'u cadw yno heb hysbysu neb o gyfeillion neu berthnasau'r bobl a gipiwyd felly. Cafwyd tystiolaeth fod un dyn eisoes wedi colli ei swydd o ganlyniad uniongyrchol i hyn, a bod un arall mewn perygl o wneud. Tanlinellwyd y pwynt hwnnw gan siaradwr arall; yn ei farn ef, yr oedd gweithredu fel hyn yn dacteg fwriadol ar ran yr heddlu i ddychryn pobl rhag ymhel â gwleidyddiaeth o gwbl, a gwaetha'r modd, yr oedd yn llwyddo.

Penderfynwyd ethol pwyllgor i lywio'r ymgyrch a fyddai'n cynnwys ceisio addysgu'r cyhoedd ac agor ei llygaid i'r modd y mae ein hawliau dinesig yn cael eu tanseilio gan yr heddlu, ac ymgyrchu yn erbyn deddfau sy'n peryglu rhyddid yr unigolyn megis y Ddeddf Atal Terfysgwyr a'r Ddeddf newydd y bwriedir ei sefydlu yn yr Alban i alluogi'r heddlu i gadw pobl yn y ddalfa am gyfnod llawer hwy nag y medrant ar hyn o bryd heb ddwyn cyhuddiad yn eu herbyn. Cytunwyd i sefydlu dwy gronfa, y naill i gynorthwyo teuluoedd y rheini a arestiwyd yn ymgyrch yr wythnosau diwethaf yma, ac sydd wedi dioddef o ganlyniad i hynny, a'r llall i hyrwyddo gwaith y mudiad. Etholwyd Selwyn Jones, aelod o Gymdeithas yr Iaith a Mudiad Gweriniaethol Sosialaidd Cymru yn Gadeirydd y Pwyllgor. Bydd y cyfarfod nesaf nos **Fercher, Mai 7fed yn Uned y Myfyrwyr, Coleg y Brifysgol, Caerdydd.**

# Y DYFODOL

Ffolineb yw edrych ymlaen at y gaeaf nesaf, efallai, a tipyn o hwn heb ei dreulio! Sawl gwaith y dywedodd mam, "Mawrth a ladd!" wrtha i, tybed?

Ond mae Cyfeillion Y Theatr Gymraeg wedi bod yn gweithio'n galed yn ddiweddar - i geisio trefnu mwy o bethau Cymraeg yn y ddinas. A dyma'r sefyllfa ar hyn o bryd.

Am chwe nos Sul y gaeaf nesaf, ar ôl y cyfarfodydd addoli, bydd noson Gymraeg yn theatr fawr Y Sherman, gyda chydweithrediad parod Geoffrey Axworthy. Un cynhyrchiad bob mis. Gŵyr swyddogion Y Cyfeillion beth fydd yn llenwi 'r rhan fwyaf o'r nosweithiau erbyn hyn, ond mae'n well cadw'r cyfan yn gyfrinach! Dros dro. Ond mae'n hyfryd meddwl y bydd arlwy Gymraeg o safon uchel yn digwydd unwaith y mis - chwe arlwy sy'n defnyddio talentau lleol ac eraill!

Ac mae gobaith am fwy - ar nosweithiau eraill. Ein hunig broblem ar y funud yw diffyg cefnogaeth - hen broblem yng Nghaerdydd. Ond mae hwn yn gam i'r cyfeiriad iawn.

# Golygyddol

Oherwydd cynnydd enfawr yng nghostau'r byd cyhoeddi, aeth prynu llyfrau a phapurau yn arfer braidd yn ddrud. Gan fod yr un broblem yn wynebu Pwyllgor 'Y Dinesydd' â phob cyhoeddwr arall, penderfynwyd ceisio cadw ffrwyn ar bethau drwy fabwysiadu dull arall o gyhoeddi, fel arbraw, o leiaf, yn y man cyntaf.

Ymddengys y papur y tro hwn, felly, yn yr un wisg â llawer onid y mwyafrif o'r papurau bro eraill sy'n ffynnu led-led Cymru y dyddiau hyn. Croesawn eich ymateb iddo, a charem eich atgoffa na fyddai'n amhosibl mynd yn ôl i'r dull blaenorol ond inni gael y modd cynhaliaeth oddi wrthych chi, ddarllenwyr, a'n galluogai i wneud hynny.

Carem gymryd y cyfle fan yma i ddiolch yn gynnes i bawb a gyfrannodd tuag at gynnal y papur. Bu'r ymateb i'n hapel ddiwethaf, ddiwedd 1979, yn sylweddol, ond mae'r angen yn barhaol a byddai croeso mawr i gyfraniadau pellach fel y sicrhaer parhad y papur.

* * *

Digwyddiad pwysig ynglyn a'r iaith yn ddiweddar oedd anerchiad yr Ysgrifennydd Gwladol, Mr. Nicholas Edwards, yn y Gogledd ar y 15fed o Ebrill. Dywedodd rai pethau pwysig iawn, megis ei gyffes ffydd agoriadol:

> "Hoffwn siarad am ddyfodol yr iaith heddiw. Fe sylwch ar unwaith fy mod yn sôn am ei dyfodol, nid am ei pharhad. Rwy'n cychwyn drwy gymryd yn ganiataol mai ewyllys a dymuniad pobol Cymru yw i'r iaith barhau fel iaith fyw ag ymhell o adael iddi drengi, y byddant yn rhoi bywyd o'r newydd iddi. Dywedaf hynny am fy mod,er gwaethaf yr holl bwysau arni, yn sylwi ar hynny'n digwydd. Sylwaf ar ymwneud angerddol y rhai sy'n caru'r iaith, a brwdfrydedd y rhai sy'n ei dysgu, ac yn ceisio sicrhau bod eu plant yn eu dysgu. Dywedaf hynny am na allaf gredu o gwbwl y gellid caniatau i'r iaith hon, a gydnabyddir fel rhan o etifeddiaeth amhrisiadwy Ewrop yn ogystal â Phrydain, farw."

Daeth yn hwyrach at y camau a gymerir i sicrhau na ellir caniatau hynny, ac yn y flwyddyn 1981-2, bydd y camau hyn yn werth £1.5 miliwn, a fydd "yn agos iawn i nod Cyngor yr Iaith Gymraeg fel y cam cyntaf". Gallai'r synig ddweud, "Dim ond i chi anghofio chwyddiant sydd erbyn hyn oddeutu ugain y cant".

Mae'r "cam cyntaf" hwn i'w groesawu, ond dylid pwysleisio mai cam cyntaf yn unig ydyw, a cham petrus, a bach. Bach iawn pan gymherir ef â'r hyn a werir ar ledaenu'r Saesneg ym Mhrydain a thrwy'r byd gan gyrff megis y cyfryngau radio a theledu, Y Cyngor Prydeinig, ac ati. Cymerer yr olaf. Yn y flwyddyn 1978-79, gwariwyd dim llai na £90.9 miliwn gan Y Cyngor, y rhan fwyaf ohono ar feithrin, noddi, a hybu'r iaith Saesneg drwy'r gwahanol gyfryngau, led-led y byd, a'r amcangyfrif o'r hyn a werir yn 1979-80 yw £101.2 miliwn. At hyn, gwerir tua £40 miliwn o bunnoedd ar Wasanaeth Tramor (World Service) y B.B.C., gan roi cyfanswm am y ddau gorff yma yn unig o tua £140 miliwn y flwyddyn. Ychydig dros ganfed ran o hyn fydd y £1.5 miliwn a fwriedir ar gyfer yr iaith Gymraeg ym 1981-82.

* * *

Digwyddiad arall yng Nghymru, a digwyddiad ysgytwol, oedd helynt y plismyn a'r deugain o bobl y'u cyrchwyd o'u gwelyau fore glas dydd Sul olaf mis Mawrth, ac y rhyddhawyd naw o bob deg ohonynt heb unrhyw fath o gyhuddiad i'w herbyn. Creodd hyn gryn ymateb gan beri i 4 o'n haelodau seneddol, Dafydd Elis Thomas, Dafydd Wigley, Ray Powell a Geraint Howells, anesmwytho'n fawr o'i herwydd! Yn y rhifyn hwn ceir hanes cyfarfod a gynhaliwyd yng Nghaerdydd o ganlyniad i'r digwyddiad brawychus hwn. "Pris rhyddid yw gwyliadwriaeth dragwyddol", medd yr hen air, ac y mae mor berthnasol i'r radd o awdurdod y tybia awdurdodau'r heddlu y gallant ei briodoli i'w hunain ag i unrhyw fygythiad arall.

# MANION

Ar Ddydd Gŵyl Ddewi cyhoeddwyd dyweddïad Linda Wood, New Zealand Rd.Cathays a Keith Witty, Pentrebaen. Mae Linda newydd ei phenodi yn Bennaeth yr Adran Gymraeg yn Ysgol Uwchradd Cathays, yr ysgol lle bu hi yn ddisgybl cyn mynd i Goleg y Brifysgol Aberystwyth. Bu'n dysgu ym Mhrestatyn wedi hynny cyn dychwelyd i'r De i ddysgu yn Ysgol Uwchradd Llantarnam, Gwent. Mae teulu Keith yn hannu o'r Rhondda a dysgodd ei Gymraeg ar Gwrs Wlpan Canolfan yr Urdd y llynedd. Ein dymuniadau gorau i'r ddau ohonyn nhw.

Ganwyd efeilliaid - Rhys Llwyd ac Aled Llyr - i Lyn a Daryl Baker, Rhymni,Caerdydd ym mis Mawrth. Daw'r teulu yma o Gwm, Glyn Ebwy, a dysgon nhw Gymraeg ar ôl dod i fyw i Gaerdydd. Mae tri arall o blant ganddyn nhw yn Ysgol Bryntaf. Maen nhw'n aelodau yn y Tabernacl. Llongyfarchiadau iddyn nhw.

Cynhaliwyd Twmpath Dawns dan nawdd Cymdeithas Rieni Cylch Meithrin y Waun ar nos Wener yr 21 o Fawrth yn Neuadd Chwaraeon Ysbyty'r Mynydd Bychan. Y galwr oedd Gwilym Roberts. Cafwyd adloniant gan "Tannau Taf" (arweinydd Carys Williams) gyda Mona Meirion ar y delyn. Cyflwynwyd yr eitemau gan Pat Griffiths, cafwyd unawd cân werin gan Judith Jones ac unawd penillion gan Carys Williams. Adroddodd Pat Griffiths a chafwyd unawd ar y delyn gan Mona Meirion.

Llongyfarchiadau i Armon Daniel a Rhys Powys ar deilyngu medal aur Cynllun Dug Caeredin. Bydd y ddau, cyn bo hir, yn teithio i Blas Buckingham i dderbyn eu medalau.

Llongyfarchiadau i Marc Edwards ar ennill cadair Eisteddfod Glan Taf gyda'i gerdd "Ar y slei". Dyma'r bardd buddugol cynta i gael eistedd yng nghadair wag Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd. Yng Nglan Taf y bydd cartre'r gadair o hyn ymlaen.

Cydymdeimlwn â'r barnwr Dewi Watcyn Powell a'r teulu ar eu profedigaeth o golli'i fam.

# O'R POST

3, Maes Cemig,
Llangwm,
Corwen,
Clwyd.
(Ffôn: Cerrigydrudion 478)

Annwyl Gyd-Gymry, Mawrth 1980

Ysgrifennaf atoch i gyflwyno Cywaith Uwchaled i chi ac i ofyn am eich cefnogaeth.

Menter Gydweithredol yw Cywaith Uwchaled a sefydlwyd yn ddiweddar yn yr ardal Gymraeg hon i geisio lleddfu ychydig ar y broblem ddiboblogi. Diffyg gwaith yw achos pennaf y diboblogi hwn ym mhlwyfi Cerrigydrudion, Pentrefoelas, Llanfihangel Glyn Myfyr a Llangwm fel mewn llawer i ardal arall gyffelyb. Bwriad a nod Cywaith Uwchaled yw ceisio newid rhywfaint ar y drefn economaidd hon sy'n gwasgu cymaint ar ein cefn gwlad. Gobeithiwn, cyn hir, allu cynnig gwaith i rai o ieuenctid ein cylch.

Mae gennym ddau syniad pendant ar y gweill ar hyn o bryd sef sefydlu gweithdy coed i gynhyrchu gwahanol nwyddau a dechrau popty i gynhyrchu teisennau, bisgedi ac yn y blaen. I wneud hyn oll y mae'n rhaid wrth gyfalaf wrth gwrs a phrif bwrpas y llythyr hwn yw gofyn am eich cymorth chwi ddarllenwyr eich papur bro.

Rydym yn cynnig cyfranddaliadau yn y Fenter am £5 yr un. Gellir prynu unrhyw nifer a chedwir yr arian am o leiaf bum mlynedd. Nid ydym chwaith, ar hyn o bryd, yn cynnig unrhyw log ar yr arian.

Os hoffai unrhyw un ein helpu fel hyn buaswn yn fwy na balch o glywed oddi wrtho. Beth am dynnu rhywfaint o bres o afael y banciau mawr a'i roi ar waith dros Gymru?

Yn ddiolchgar,
MOI PARRI,
Ar ran Pwyllgor Rheoli, Cywaith Uwchaled.

# Gŵyl Feithrin M.Y.M.

Flwyddyn yn ôl roedd gweithwyr a chefnogwyr Mudiad Ysgolion Meithrin wrthi'n ddygn ond eto'n betrusgar yn gwneud trefniadau ar gyfer ein Gŵyl Feithrin Genedlaethol Mai 5-12,1979.

Diben yr holl weithgareddau yr adeg honno oedd pontio rhyngom a'r di-Gymraeg, tynnu eu sylw at ein bodolaeth ac ennyn eu diddordeb yn ein nod a'n hamcanion. Ar rheswm am y petruster? Wel! Hon oedd ein Gŵyl Feithrin gyntaf ni. O'r herwydd, roedd yn faes newydd sbon ac felly, yn peri tipyn o gur pen.

Yn y cyswllt hwn, nid oedd sail o gwbl i'n gwangalondid, bu'r Ŵyl yn llwyddiant digamsyniol, a'r farn ledled y wlad oedd fod eisiau dathlu cyffelyb yn flynyddol o bosib. Dyma ni felly ar drothwy Gŵyl Feithrin arall, Mai 12-17, 1980 ac eisoes bu myrdd o weithwyr wrthi'n cau pen y mwdwl ar drefniadau eleni.

Nid yw apel yr Ŵyl hon mor gyfyng â'r llynedd. Teimlwyd ers tro ymhlith ein pobl fod nifer o Gymry Cymraeg yn lastwraidd eu hagwedd tuag at addysg Gymraeg; ymweler â mannau o Bontarddulais er enghraifft; ac felly, mae angen canolbwyntio sylw ar y rhain yn ogystal â'r di-Gymraeg. Mae swyddogaeth broselytaidd gennym fel Mudiad a rhaid inni geisio argyhoeddi'r lliaws hwn o'r gwerthoedd arbennig sydd ynghlwm wrth addysg feithrin Gymraeg a'r dilyniant ddaw yn ei sgil.

Bron i ddwy flynedd yn ôl mabwysiadodd y Mudiad arwyddlun iddo'i hun ac erbyn hyn mae hwn yn adnabyddus i bawb. Ond er ei deced, nid simbol byw egniol mohono, dim ond delwedd y mae'n hawdd ei hadnabod ac sy'n dwyn y Mudiad i go pan y'i gwelir.

Rydym am lansio cymeriad newydd sbon felly, gogyfer â'r Ŵyl, sef plentyn ifanc wedi ei wisgo mewn clos a chrys ac â nodweddion arbennig eraill.

Cymeriad tebygol fydd hwn all gynrychioli y Mudiad yn ei holl weithgareddau ac y gallwn ni ei ddefnyddio a'i ddatblygu yn ein llyfrau a'n llenyddiaeth.

Mae eisiau enw ar y cymeriad ac mae'r BBC trwy gyfrwng 'Helo Bobol' wedi cynnig cynnal cystadleuaeth ar ein rhan i fathu enw iddo. Bydd hwn yn gyhoeddusrwydd ardderchog inni ac fe ddug y Mudiad i sylw'r cyhoedd am wythnosau bwygilydd. Cyrhaeddir uchafbwynt y gystadleuaeth hon ar ddydd Llun yr Ŵyl Feithrin pan draddodir y feirniadaeth ar yr enw buddugol.

Bydd amrywiol weithgareddau trwy Gymru benbaladr gydol yr Wythnos Feithrin ac fel rhan o'r rhain bydd cylchoedd unigol yn gwahodd aelodau'r cyhoedd atynt i weld y plant wrth eu gwaith. Ga i apelio atoch gyfeillion i droi i mewn i'r cylch yn eich ardal chi; bydd croeso brwd ichi, cewch baned a chewch weld Cymry y dyfodol yn chwarae a chanu ac ati. Bydd y rheiny sy'n cynnal y cylch yn teimlo eu bod yn cael y gefnogaeth y maent yn eu haeddu.

Mae niferus weithgareddau eraill hefyd, rhai y bydd plant yn cymryd rhan amlwg ynddynt, cystadlaethau paentio, llunio murluniau, picnicau, te parti, sioe ffasiynau plant, teithiau cerdded ac ati. Mae deinamig yr Ŵyl, fodd bynnag, i'w ganfod yn y ffordd y mae rhieni a chefnogwyr y Mudiad yn ymaflyd iddi. Maent hwy yn trefnu teithiau cerdded, ras falwns, garddwest, sioe gŵn, ysgolion undydd, cystadlaethau ysgrifennu, gorymdeithiau, nosweithiau cymdeithasol, taith feiciau i famau, twmpathau dawns, adeiladu cestyll ar y traeth, barbiciwo ac yn y blaen ac yn y blaen; mae'r rhestr yn ddiddiwedd.

Ar hyd a lled y wlad rydym yn ddyledus i unigolion a grwpiau eraill sy'n cefnogi yr ymdrechion lleol. Mae Shân Emlyn yn mynd i Ddwyfor a 'Maggie Post' i Geredigion; mae Ysgol Gynradd Aberteifi yn cyflwyno elw eu perfformiad o ddrama gerdd i'r cylch lleol ac mae Cwmni Adeiladu Nationwide wedi caniatau i'r cylchoedd meithrin ddefnyddio ffenestri eu swyddfeydd trwy Gymru gyfan i arddangos gwaith y plant. Mae Cwmni Teledu Harlech wedyn wedi noddi a pharatoi comic fydd yn cael ei ddosbarthu gyda'n cylchgrawn 'Meithrin' ni.

'Yn ara' deg mae dal iâr' medd yr hen ddihareb, ond caiff ei dal yn y man. Tebyg yw ymdrechion cymwynaswyr y Mudiad wrth geisio darbwyllo ein cyd-Gymry o werth addysg feithrin Gymraeg. Mae'r gwaith yn flinedig yn aml ac mae'r daith yn bell ond mi greda i fod yr Ŵyl Feithrin yn garreg filltir bwysig ar hyd y ffordd ac mae'n gyfle rhagorol i'r Mudiad gael sbri a mwynhau ei Gymreictod.

J. Bryan Jones, Cyfarwyddwr.

# MANION O'R MYNYDD BYCHAN

**Y DR. IFAN YN BWRW GOLWG DROS BETHAU YN YR YSBYTY**

Pethe doniol, neu bethe neis o leia, sy well 'da'r Dr. Ifan bob gafel, o gâl dewis. Ond er nad yw erthylu byth yn ddoniol nac yn neis, ni all na'r hen Ddoctor na neb arall mo'i anwybyddu yn y byd truenus sydd ohoni, pan leddir bob blwyddyn wyth cant o fabanod gwrageddos De Morgannwg yn eu crothe, a phan fo mesur newydd ynglŷn â'r arfer ar lyfre stadud y senedd.

A dyna paham yr âth y Dr. yn ddiweddar i gynhadledd un-dydd ar y testun,"Erthylu: Y Ddadl yn ei Erbyn", a gynhaliwyd yn yr Ysbyty Athrofaol. Fe drefnwyd hon ar y cyd gan gangen Caerdydd o Urdd y Meddygon Pabyddol, a'r Gymdeithas er Diogelu Plant Cyn eu Geni, ac fe lanwyd prif ddarlithfa'r ysbyty. Fe âth y siaradwyr gwadd drwy'r holl ddadlŵon arferol - y rhai moesol a chymdeithasol - ond yr hyn darws y Dr. Ifan oedd darn o ffilm a ddangoswd gan yr Athro Emeritws Iain Donald. Cyn-benneth Adran Bydwreigeth Prifysgol Caredin yw'r Athro Donald, ac ef yw'r dyn fu'n benna cyfrifol yn ystod y ddou ddegawd diwetha am ddatblygu'r technege o ddefnyddio tonne o uwchsain (ultra-sonic) er mwyn cael gweld y baban yn y groth heb 'i anafu. Gyda gwellianne technegol diweddar, y mae hi bellach yn bosibl gweld y baban mor gynnar â rhyw ddeng wythnos o'i dadogi.

Fe ddangoswa ffilm yr Athro fod y baban - hyd yn ôd yn y dyddie cynnar 'ma - yn ddyn bach perffeth. Y mae pob rhan o'i gorff wedi'i ffurfio'n berffeth a chywren ac y mae e hyd yn ôd yn symud - yn cico neu'n sugno'i fys bawd - bron yn gwmws fel y gwnaiff yn nes ymlân ar ol 'i eni. 'Smo'r wybodeth hon, neu ffilmie fel hyn, yn datrys problem erthylu o gwbl, wrth gwrs; dewis moesol a chymdeithasol yw e, nid mater o feddygeth na bywydeg. Ond ni all neb, ar ôl gweld ffilmie fel hyn ddim honni byth eto taw "twmpyn o geulfwyd yn unig" yw'r rhith anffodus y ceir gwared ohono wrth erthylu.

Ac yn ôl â'r golofn 'nawr at hyfrytach pethe. Llongyfarchiade ond ffarwel i'r Dr. Dewi Evans sydd newydd symu symud o adran blant y Mynydd Bychan i fod yn ymgynghorydd iechyd plant yn Ysbyty Treforus, Abertŵe. Pob rhwydd hynt iddo fe a'i deulu.

Llongyfarchiade hefyd i Miss Vaseem Hakeem, Myfyrwreg yn yr ysgol feddygol a golygyddes "Leech", cylchgrawn y myfyrwyr. Cymrâs Gymrâg o Abergele yw Vaseem, a Chymrâs Gymrâg o'r siort newydd. O'r Pwnjab y dath 'i rhieni, ond yng Nglwyd y maged Vaseem, a bellach ma'i Chymraeg hi yr un mor lân â'i Hwrdw - diolch i ysgolion Abergele ar y naill law, a'i rhieni ar y llall. (Ma'i Sisneg hi, fel Sisneg ambell i Gymrâs Gymrâg arall heddiw, yn lanach byth, wrth gwrs. Ond 'smo'r Dr Ifan yn moyn mynd ar ôl y sgwarnog honno y tro 'ma). Ta beth, newydd weld copi o'r rhifyn newydd o "Leech" y ma'r Dr Ifan, a dyna paham y llongyfarchiade, am gylchgrawn ag arno sglein a darllenadwy. Rhai Sisneg yw'r erthygle i gyd, ond ma 'na bwt bach o englyn yn yr heniaith ynddo hefyd. Englyn i'r coleg meddygol yw hwn, ond 'smo'r Dr Ifan yn mynd i ddatgelu pwy yw'r bardd ifanc, am fod yno (a'n gwaredo!) wall yng nghynghanedd y paladr. Ond fe gred y Doctor fod yr esgyll yn gywir:-

"Rhoddi'r dysg a rydd ar dân
Yw baich y Mynydd Bychan".

Bu'r Dr Ifan yn gwrando ar lawfeddyg o Ogledd Iwerddon yn rhoddi peth o'r dysg hwnnw pa ddiwrnod. Canlyniad i hanes echrydus Wleth (Ulster) yn ein dyddie ni yw bod ysbytai Belfast bellach yn un o brif ganolfanne'r byd i lawfeddygon ifenc ddysgu technege llawfeddygeth damweinie difrifol, ac fe ddâth athro llawfeddygeth y ddinas honno draw i ddarlithio i adran llawfeddygeth Cardydd ar y pwnc. Sy'n dangos efalle taw gwynt drwg iawn yw'r un na ddaw â lles i neb.

Ma hynny'n atgoffa'r Dr Ifan obeutu clinig newydd y bu ef yn ei archwilio y diwrnod o'r blân. Newydd agor ar 'i newydd wedd y ma'r clinig arbennig hwn, yn Glossop Terrace, gyferbyn â phrif fynedfa'r Ysbyty Brenhinol, ac fe âth y Doctor draw i weld yr holl gyfleustere sydd yno. Ma'r lle'n edrych fel pin mewn papur, a ma digonedd o staff prysur a hapus i'w gweld yno. Paham, felly, ma'r Dr Ifan yn meddwl am wyntodd drwg? Wel, am taw clinig heintie gwenerol - yr hen V.D. - yw hwn, ac am iddo weld cyfarwyddwr y clinig yn sôn am 'i obaith y bydd y lle'n datblygu yn "...un o'r clinige H.G. mwyaf blaengar yn Ewrop gyfan, yn cymharu'n fwy na ffafriol gydag unrhyw adran arall..."

Nawr, 'smo'r Dr Ifan yn ame am eiliad nad oes angen trin y trueiniaid sy'n diodde o'r afiechydon yma. (Fe drinir dros dair mil o bobl yng nglinige H.G. De Morgannwg bob blwyddyn).

'Smo fe chwaith yn gwarafun i'r nyrsus a'r meddygon sy'n gwitho yn y lle gâl amgylchedd gwitho glan. A ma hi'n ddigon naturiol hefyd i gyfarwyddwr yr uned fod yn falch o'r cyfleustere newydd. Ond, wedi'r cwbl, wel - 'dodd 'na ddim galw am "un o'r clinige H.G. mwyaf blaengar yn Ewrop gyfan" yn blue-print gwreiddiol Cymru Fu, odd e?

Hyd tro nesaf (a llonnach cywair, gobitho, yndife!)


Y Dr Ifan.

# cccc

Ystyr y pedair 'C' yma yw "Cymdeithas Clwb Cymraeg Caerdydd y bwriedir ei sefydlu yn y brifddinas, ac i'r pwrpas hwn, fe gynhelir cyfarfod yng Ngwesty'r Angel nos Fawrth, Mai 20fed am 7.30. Cyfarfod fydd hwn o ryw 50 o bobl weithgar ymhlith y mudiadau Cymraeg yn y brifddinas, sy'n sylweddoli'r angen am fan cyfarfod Cymraeg ei iaith a'i awyrgylch. Ys dywed un o'r hybwyr, "Bydd yn fwy o ganolfan nag y mae'r rhelyw o glybiau, lle y bydd y cannoedd o bobl fydd yn aelodau yn gallu troi i mewn iddo pryd bynnag y mynnon nhw". Lluniwyd y cyfansoddiad eisoes a gobeithir cael hanes cyfarfod yr 20fed o Fai yn y rhifyn nesaf.

# CROESAIR Y DINESYDD *Rhif* 3

## gan ap Lewsyn



Ar Draws

1. "Crog glychau'r .......... uchel" (Eifion Wyn) (7)
4. Nod abad cynhyrfus oedd deall ei gyd-ddynion, a gwybod pwy oedd pwy. (7)
9. Y mae yn swyddfa'r twrnai lawer o dystiolaeth am un (o'r ddau). (4)
10. Trefniant i wythawd yw hyn yng Nghymru bellach. (Pumawd yn llai) (5)
11. Cyseinedd sy'n dechrau â dim ac yn gorffen â 551 (4)
12. "I ...,neu ddydd o wynfyd" (Bardd Nantglyn) (3)
13. Planhigyn a geir yn rhannol yn Llantrisant (6)
14. Rhagfynegodd yr oracl wyth niwrnod o friw. (4)
15. "O ..... i waeth" (4)
16. Neidr Cleopatra? (3)
19. Rhaid trefnu dydd yr ast acw, W.D., os ŷch chi am gael tipyn o gydraddoldeb (13)
21. Tasech chi'n achub y blaen yma, fe gaech fera. (3)
25. Mae blaenwyr bwrdd amaeth newydd Cymru yn dangos ble mae cynilo. (4)
27. "Tŷ ar .....". Hysbysiad prin heddiw. (4)
28. Mae draig a'r ail symbol yn cynhyrfu'r corfflu. (6)
29. Ysgrifennwyd at Eglwys Laodicea, "Nid ydwyt nac ..... na brwd". (3)
30. Daearen yn cynnwys 29. (4)
31. A geir cyflwr urddasol o reoli anhrefnus? (5)
32. Anghysbell a di-gymar. (4)
33. Rhoi had yn denau yn y pridd? Colli nerth. (7)
34. Lluosog cymysg 31 yn y capeli. (7)

I Lawr

1. Mae ystryw yn ffurfio o flaen Cwt-y-Cadno (7)
2. Aer ffres? (6)
3. Ymestyn a wnaeth rhan o'r ail ast i gi. (6)
5. Ai dyma waith Dilys? Mi wrantaf hyn. (6)
6. Boi od a "dysgwr" sy'n byw yma. (6)
7. Gofyn yn daer a fu wrth gymryd y sied yn ôl. (7)
8. Bu rhain wrthi er yr unfed ganrif ar bymtheg yn aflonyddu ar nos te-parti Dai. (13)
13. Cwlwm didrefn yn colli cant ac ennill pum cant ac felly'n gwneud pentwr. (5)
16. Anifail treigledig 19 a 3. (3)
17. Dwfn, ond i'r gwrthwyneb hefyd. (3)
18. Drato! mae'r post yn dod yn ôl eto. (5)
20. Trofaus! (7)
22. Nid saff yw cymysgu rhywbeth sy'n felys i'r Cymry a rhywbeth sy'n UGLY i'r Saeson. (7)
23. Y peth cyntaf a ddywedsoch heddiw? (6)
24. Genau a cherbyd garddwr. (6)
25. Y gŵr gradd cyntaf? (6)
26. Byddech yn ei chael hi'n anodd dianc o gael eich gwthio i hwn/hon. (6)

Atebion i Groesair y Dinesydd Rhif 2

Ar Draws: 1. rheidiau; 2. cymharu; 8. daeareg; 9. ped-lera; 11. gwenyn; 12. nodiad; 13. ill dwy; 14. gnocell; 17. ddedwydd; 20. yd; 21.cyll; 22. to; 23. dwysed; 25.polion; 27. Ionor; 28. wrth alw; 29. edifar; 30. dirmygu; 31. eildwym; 32. deillion; 33. enillion.

I Lawr: 1. rhedegog; 2. drain ac ysgall mall; 3. adennill; 5. ymennydd;6. hel a nidol diadell; 7. unawdydd; 10. cyd-gynnull; 15. naw; 16. ede; 18. eto; 19. yno; 23. dywedyd; 24. diwygio; 25. prepian; 26. northmyn

Atebion yn y rhifyn nesaf. Tocyn Llyfrau (£2) am yr ateb cywir cyntaf a ddaw. Anfoner at y Golygydd.

Nid oedd enillydd i Groesair Rhif 1. Enillydd Croesair Rhif 2 yw Mr. Cen Williams.

# YR EISTEDDFOD

Tocynnau dyddiol

Mae y tocynnau hyn ar werth yn awr:

Pris £3.75 Dosbarth Cyntaf
£3.20 Ail Ddosbarth.

o
Swyddfa'r Eisteddfod,
31A Ffordd Gorwydd,
Tregwyr, Abertawe.SA4 3AG.

Cyngherddau Nos

1. Digwyddiad o bwys ym mhatrwm cyngherddau Eisteddfod Genedlaethol Dyffryn Lliw fydd ymweliad cyntaf Cwmni Opera Cenedlaethol Cymru a'r Wyl (nos Sadwrn, Awst 9fed) i gyflwyno panorama o fyd yr Opera - yn unawdau a deuawdau, yn eitemau corawl, ynghyd a darnau cerddorfaol. Bydd eu detholiad yn cynnwys gweithiau Verdi, Tchaikovsky, Mascagni, Puccini, Bizet a Rossini.

2. Band Pres Cenedlaethol Cymru a fydd yn agor y gyfres cyngherddau, yn ymddangos a Chôr Meibion Unedig o ardal yr Eisteddfod (nos Sadwrn, 2il Awst) ac unawdydd.

3. Golyga dau berfformiad Côr yr Eisteddfod y bydd yr aelodau yn dra chyfarwydd â llwyfan y Brifwyl erbyn diwedd yr wythnos. Unawdau a chytganau o fyd yr Oratorio fydd thema eu cyngerdd cyntaf (nos Sul, Awst 3ydd) yng ngofal arweinydd gwadd. Yn yr ail gyngerdd cyflwynir gwaith Dvorak 'Stabat Mater', eto gydag arweinydd ac artistiaid gwadd (nos Iau, Awst 7fed).

4. Y mae i blant o hyd le amlwg yng nghyflwyniadau pob Eisteddfod a chedwir at y traddodiad hwnnw yn Nyffryn Lliw gyda pherfformiad o Carmina Burana Carl Orff (plant yr ysgolion uwchradd) nos Wener, Awst 8fed.

5. Cwblheir y gyfres gan Gerddorfa Ieuenctid Genedlaethol Cymru (nos Fercher, Awst 6ed) o dan arweinyddiaeth Mr. Arthur Davison.

## Da iawn!

Yn Eisteddfod Gylch Dwyrain Caerdydd gwelwyd Adran Bentre'r Urdd yn Rhiwbeina yn cystadlu am y tro cyntaf yn ei hanes, ac yn ennill! Bu'r Côr Adran yn canu a dau barti wyth, a daeth Lisa Mildon yn gyntaf ar yr unawd dan 12 oed.

# EISTEDDFOD RHYDFELEN, 1980

Os oes unrhyw un yn amau bod gan ieuenctid heddiw frwdfrydedd a diddordeb wrth eisteddfota, fe ddylai'r pesimistiaid hynny fod wedi bod yn Rhydfelen ar ddydd Iau, 28, a dydd Gwener, 29 o fis Chwefror. Petaech wedi bod yn cerdded yn hamddenol trwy erddi ffrwythlon yr ysgol neu ar hyd ein maes chwarae glaswyrdd ar y dydd Mercher cynt, fe fyddai cerddoriaeth per wedi llenwi'ch clustiau a lleisiau ifainc, diniwed wedi effeithio ar eich teimladau. Ie, yr unawd bechgyn dros bymtheg yn ymarfer yn galed yn un o'r ystafelloedd cerddoriaeth!

Ond, yn fwy difrifol, roedd y gweithgarwch ymhlith yr athrawon a'r disgyblion o'r chwe llys yn amlwg iawn. Roedd cryn nifer wedi bod wrthi'n cyfansoddi er dechrau'r tymor, gyda digon o gystadlaethau arbennig i bawb yn y pynciau a astudir trwy'r ysgol. Fe ddechreuodd yr ymarferion llys tua mis cyn yr eisteddfod ei hun, a'r prifathro wedi ychwanegu hanner awr o amser ymarfer bob bore at yr amserlen. Roedd yr adran gerddoriaeth, yn arbennig, wedi gweithio'n ddiflino trwy gydol y cyfnod yn cynorthwyo unawdwyr, deuawdau, partion a chorau trwy'r ysgol. Yn ogystal â'r rhain, roedd deialogau Cymraeg, Saesneg a Ffrangeg, unawdwyr a phartion adrodd, dramau Ffrangeg a Lladin, corau chwibanu, partïon cyd-adrodd digri, dawnsio gwerin, clocsio, a chystadleuwyr grwpiau roc yn ymarfer yn ddyfal ar hyd yr ysgol.

Delwyn Sion oedd ein gŵr gwadd ar y diwrnod mawr ei hun, ac yn un cymwys iawn hefyd, gan iddo fod yn gyn-ddisgybl o Rydfelen. Un peth y sylwodd Delwyn arno oedd y nifer o ddisgyblion yn Rhydfelen erbyn hyn. Yn ei amser e fe gynhwysid yr ysgol gyfan yn y neuadd, ond erbyn hyn, mae Rhydfelen yn llenwi neuadd y Coleg Technegol drws nesaf ynghyd â neuadd yr ysgol. Siaradodd Delwyn yn ddiddorol ac yn gynnil ac roedd ei bersonoliaeth ddifyr yn ategu at hwyl y diwrnod.

Fel ym mhob ysgol arall, mae 'na drawsdoriad eang o blant yn Rhydfelen, ac ymhlith y rhain, canran go fawr na fyddai wedi cymryd rhan yn y gweithgarwch pe baen nhw wedi cael dewis! Ond gydag ychydig o 'berswad' ar ran yr athrawon a'r chweched dosbarth, cytunodd y mwyafrif i ymuno yn yr anhrefn a gwneud o leiaf un peth ymarferol. Efallai na fyddai'r rheini'n fodlon cyfaddef yn gyhoeddus eu bod wedi mwynhau yr hyn a wnaethon nhw, ond rwy'n siwr eu bod wedi gwneud mewn gwirionedd. Er mai Llys Gruffydd enillodd yr eisteddfod eleni, nid yw hynny wedi'n digalonni ni'r gweddill. Felly, gydag eisteddfod gyntaf Rhydfelen yn yr wythdegau drosodd, fe obeithir yn fawr y ceir yr un brwdfrydedd a pharodrwydd i gystadlu yn eisteddfod 1981.

Sali Howells,Dosbarth 6.

# *OFFEREN RHYFEL*

Nid yn aml y cysylltir Caerdydd â dinas Dresden yn Nwyrain yr Almaen ond dyna ddigwyddodd am dridiau yn union ar ôl y Pasg. Aeth Cerddorfa Simffoni Gymreig y BBC ynghyd â thri unawdydd, Jill Gomez, Robert Tear a Stephen Roberts, draw i Dresden i gymryd rhan mewn cydgynhyrchiad rhwng BBC Cymru a Chyfundrefn Deledu Dwyrain yr Almaen o "War Requiem" Benjamin Britten.

Dioddefodd Dresden yn enbyd gan fomio erchyll lai na deufis cyn diwedd y rhyfel, bomio a ddymchwelodd dros hanner adeiladau'r ddinas a lladd oddeutu pymtheng mil ar hugain o'i thrigolion. Er bod canol y dref wedi ei hailadeiladu, mae llawer o'r adfeilion yng nghyffiniau'r Eglwys Gadeiriol yn dal yn dystion mud i'r dinistr a fu. Ac yn yr Eglwys fawreddog honno - yr Hofkirche - sydd wedi ei hadfer yn ysblennydd, yr unodd Gorllewin a Dwyrain i berfformio'r gwaith a gyfansoddodd Britten ar gyfer ail gysegriad Eglwys Gadeiriol dinas arall a ddioddefodd yn yr un modd, sef Coventry. Thema'r gwaith yw marwolaeth ac ynfydrwydd rhyfel. Ymhleth yn Lladin yr Offeren mae geiriau y bardd o Groesoswallt, Wilfred Owen, a laddwyd yn Ffrainc ychydig cyn Cadoediad 1918.

Profiad gwefreiddiol oedd bod yn yr Eglwys Gadeiriol yn gwrando ar seiniau'r gerddorfa a'r unawdwyr ynghyd â Cherddorfa Siambr y Dresden Philharmonic, Côr Radio Leipzig a Chôr Bechgyn Dresden a'r cyfan yn ieuo'n gytgordus dan arweiniad y maestro, Herbert Kegel. Roedd yr un ysbryd o gydweithrediad hapus rhwng staff y ddwy gyfundrefn ddarlledu yn nodwedd o'r holl gynhyrchiad.

Ar lawer ystyr roedd y cyd-gynhyrchiad yn un cwbl hanesyddol ond roedd iddo arwyddocâd a phwysigrwydd arbennig i'r Gerddorfa Gymreig. Ar adeg pan fo dyfodol ambell gerddorfa mewn mannau eraill ym Mhrydain yn y fantol, testun llawenydd a balchter oedd gweld ein Cerddorfa ni yn torri cwys newydd wrth chwarae yn un o brif ganolfannau cerddoriaeth Ewrob gan ennyn edmygedd a pharch am safon aruchel eu chwarae yn yr un modd ag yr edmygem ni o Gymru ganu cofiadwy Côr Leipzig.

Bydd y teledïad ar BBC 2 a'r darllediad ar Radio 3 ar Fai 8fed, bymtheng mlynedd ar hugain i'r diwrnod y daeth y rhyfel i ben yn Ewrop. Barned pob un drosto'i hun a lwyddwyd i gyfleu tros yr awyr wefr y perfformiadau cerddorol a dwyster yr Offeren gyda'i rhybudd clir i bawb nad yw'n cofio dioddefaint a dinistr rhyfel mewn mannau fel Dresden a Coventry.

Owen Edwards.

Carai Pwyllgor y Dinesydd ddiolch i Gymdeithas Gelfyddydau De-ddwyrain Cymru am ei chefnogaeth ariannol.

# Cylchgrawn Dysgwyr

Bydd datblygiad newydd ym maes dysgu'r Cymraeg gyda chyhoeddi rhifyn cyntaf cylchgrawn i ddysgwyr o bob oed, Siop Siarad, ar Ebrill 20, 1980. Pris y cylchgrawn 12 tudalen fydd 15c. Bydd yn ymddangos bob dau fis.

Y golygydd yw Cris Jones, cyn-fyfyriwr 21 oed a brodor o Gaerdydd a ddysgodd Gymraeg yn ei arddegau. "Gan mai dysgwr oeddwn fy hun ar un adeg, rwy'n credu fod gen i syniad reit dda o beth sydd yn apelio at ddysgwyr", meddai. "Wrth ddysgu'r iaith mae angen dod i adnabod nodweddion a hanfodion ein cenedl, felly bydd cryn bwyslais ar erthyglau ar hanes, a diwylliant a'r rhain yn rhai bywiog, a dadleuol, gobeithio." Yn ogystal bydd pytiau o newyddion am Gymru, am ddysgwyr ac am ddatblygiadau ym maes dysgu'r Gymraeg, ynghyd ag erthyglau o naws ysgafnach - rhaid dysgu chwerthin yn y Gymraeg hefyd.

Y gobaith yw y bydd Siop Siarad yn cyfrannu'n helaeth at y mudiad iaith ond ni ellir gwneud hyn heb gymorth llyfrwerthwyr, athrawon a dysgwyr fel ei gilydd. Mae angen mawr am gyfranwyr a hysbysebwyr. Os medrwch gynorthwyo'r fenter, cysylltwch â'r Cyhoeddwyr, Cyhoeddiadau Mei, Bryn Mair, Dolydd, Y Groeslon, Caernarfon. (Ffôn:Llanwnda 830003).


Idris yr Idiot m

IDRIS YN LLYNCU MUL




llyncu mul = pwdu


# Gair i'r Dysgwyr

Anaml y byddaf yn sgrifennu colofn i'r dysgwyr yn Y Dinesydd bellach oherwydd ail ddyfodiad Yr Agoriad. Rwy'n siwr ein bod i gyd yn falch o weld y papur hwn yn cael adfywiad. Teimlaf ei bod yn rhaid tynnu sylw dysgwyr ac athrawon at y cwtogi mawr yn narpariaeth awdurdodau addysg ar gyfer dosbarthiadau mewn ysgolion nos yn ystod y flwyddyn 1980-81. Bydd hyn yn cael effaith andwyol iawn ar ddosbarthiadau Cymraeg. Yn wir, ar y gorau bydd holl ddosbarthiadau addysg bellach yn gorffen yn Chwefror ac yna, misoedd hir i'r dysgwyr heb gysylltiad â'r iaith o gwbl.

Teimlaf felly fod rhaid i ni feddwl am gynlluniau newydd. Rhaid sefydlu mwy a mwy o ddosbarthiadau gwirfoddol fel sy yng Nghanolfan yr Urdd ar hyn o bryd. Dylai cymdeithasau rhieni ein hysgolion hefyd sefydlu dosbarthiadau o'r newydd. Rwy'n siwr y bydd i gymdeithasau fel Merched y Wawr a chymdeithasau eglwysig wynebu'r sialens newydd hon yn eofn a sefydlu dosbarthiadau yn ddiymdroi. Mae'r cyfan hyn yn digwydd yn yr un cyfnod ag y mae Awdurdod Addysg De Morgannwg wedi penderfynu gwneud Cymraeg yn bwnc dewisol yn y flwyddyn gyntaf yn ein hysgolion cyfun ail iaith. Rwy'n ffyddiog fodd bynnag mai ennill a wnawn yn y diwedd ar waetha'r system.

Mae diddordeb mawr o hyd mewn cyrsiau penwythnos. Mae'r cwrs yn Llangrannog ar Fawrth 21 eisoes yn llawn a llawer ar y rhestr aros. Rhywbeth yn debyg yw'r sefyllfa mewn nifer o gyrsiau eraill. Os ydych yn paratoi am wyliau haf, cofiwch am y cyrsiau yma:

Cwrs Pythefnos - Ysgol Haf y Barri - dechrau mis Awst, Manylion oddi wrth: Swyddog Addysg Bellach, Sunnyside, Penybont ar Ogwr, Morgannwg Ganol.

Cwrs Wythnos - yn y Dyffryn, 8-15 Awst, Manylion oddi wrth: Y Warden, Canolfan Addysg y Dyffryn, Tŷ'r Dyffryn, San Nicolas, Ger Caerdydd.

Mae llawer o gyrsiau dwys eraill o gwmpas y wlad. Os am fanylion am gyrsiau eraill ysgrifennwch at Yr Uned Iaith Genedlaethol, Brook Street, Trefforest, Pontypridd.

Datblygiad Pwysig i Offerynwyr Ifainc.


Eleni yn Nyffryn Lliw bydd cyfle i enillydd y Rhuban Glas Offerynnol dan 19 i dderbyn hyfforddiant ar Gyfandir Ewrop gan un o gewri'r byd cerddorol. Fel rhan o'r wobr dan 19, mae'r Cyngor Prydeinig yn rhoi ysgoloriaeth gwerth £400 ac yn trefnu cwrs byr o hyfforddiant i'r buddugol i deithio i'r Cyfandir at unrhyw athro o'i ddewis. Dyma gyfle gwych felly i ieuenctid Cymru i feithrin a datblygu eu dawn.

Anfonwch eitemau i'r Calendr at Mallt Anderson, 158, Ffordd Ddwyreiniol y Llyn, Parc y Rhath (Tel. 753695), gydag enwau, dyddiad, ac amser, etc.


Y LLYFR MAE KEITH BEST YN CEISIO'I WAHARDD...

To Dream of Freedom

Hanes llawn MAC a'r FWA, 1961-70




224 tud., 30 o luniau, £2.75

Y LLEWOD A'R LLYFFANTOD MELYN

cyfres y LLEWOD

gan DAFYDD PARRI

Y 23ain yn y gyfres hira, rata, orau erioed i blant yn Gymraeg

85c

Cyfres y Beirdd Answyddogol

Lodes Fach Neis

CARMEL GAHAN 95c

CANEUON TECWYN IFAN

20 o'i ganeuon gorau wedi'u trefnu i'r gitâr £1.65

...a nifer o gardiau cyfarch newydd, doniol. Mynna dy gopi o'n catalog 32 tud. —ar gael am ddim gyda throad y post!

Y Lolfa

TALYBONT CEREDIGION SY24 5ER

ffôn Talybont (097086) 304

# GWEINIDOG DA A FFYDDLON

Dyledwyr ydym oll ac mae nifer luosog ohonom yn drwm ein dyled i'r Parchedig D. Myrddin Davies am gymwynasau di-ri, cynghorion doeth ac am iddo ddangos inni'r ffordd i gerdded ynddi. Fel eglwys y peth lleiaf a fedrwn wneud mewn parch i'w goffadwriaeth yw diogelu'r delfrydau a'r egwyddorion Cristnogol a goleddodd mor gadarn a diwyro.

"Cadw'n ddiogel, trwy nerth yr Ysbryd Glân, sy'n trigo ynom, y peth gwerthfawr a ymddiriedwyd i'th ofal".

Bu Eglwys y Tabernacl yn ffodus yn ei gweinidogion o gychwyn yr Achos a gwnaeth pob un ohonynt gyfraniad pwysig yn ei ddydd. Yn hanes yr Eglwys, gweinidogaeth dyngedfennol oedd gweinidogaeth y Parchedig D. Myrddin Davies. Daeth yma yn y tridegau a bygythion rhyfel byd ar y gorwelion, a sylweddolodd ar unwaith pa mor bwysig oedd diogelu'r dystiolaeth Fedyddiedig Gymraeg yn y ddinas. Nid gwrthwynebu'r elfen Seisnig yn unig a wnaeth, oherwydd negyddol fyddai hynny. Yn hytrach meithrinodd yr elfennau gorau yn y bywyd Cymreig pan oedd plant yr Eglwys yn mynychu ysgolion Saesneg eu hiaith a'u hysbryd. Cefnogodd y teuluoedd a oedd yn brwydro i godi eu plant yn Gymry Cymraeg. Credai yn y person cyflawn, a bod crefydd, iaith a diwylliant yn rhan o'r gadwyn annatod. Roedd yn argyhoeddedig os medrid cael cydweithrediad rhwng yr aelwyd, yr eglwys, a'r ysgol y byddai'r dyfodol yn ddiogel.

Yn y cyswllt yma 'roedd ganddo freuddwyd. Y freuddwyd oedd gweld Ysgol Gymraeg yn cael ei sefydlu yng Nghaerdydd, a chydag eraill roedd yn un o'r arloeswyr. Erbyn hyn mae llawer wedi anghofio cyfraniad yr Eglwysi Cymraeg yn y maes hwn. Llawenydd digamsyniol iddo oedd gweld gwireddu'r freuddwyd a chlywed acenion gwahanol rannau o Gymru yn byrlymu o wefusau plant yr Eglwys.

Er na chafodd ef a Mrs. Davies eu bendithio â phlant, roedd yn hoff iawn o blant. Roedd ganddo'r ddawn i'w uniaethu ei hun â hwy a gwyddent hwythau fod ganddynt gyfaill cywir ynddo ef. Roedd yn ei elfen mewn oedfa plant a pharti a thrip yr Ysgol Sul.

Mae yna eraill yn fwy cymwys i sôn am ei ddoniau fel pregethwr ond medraf ddweud fod ei flaenoriaethau yn gywir. Credai ym mhwysigrwydd yr addoliad a phregethodd Efengyl gras a chariad yn gyson Sul ar ôl Sul. Credai hefyd bod gwasanaeth yn deillio o'r addoliad a phan ymddeolodd trosglwyddodd i'w olynydd, y Parchedig Raymond Williams, eglwys lawen, hyderus a gwasanaethgar. Diolchwn ei bod yn para felly o hyd.

Sut y cofiaf am y Parchedig D. Myrddin Davies? Tybiaf fel y carai ef. Er ei holl ddoniau a'i weithgarwch amlochrog, cofiaf amdano fel:

Llysgennad y Duw Mawr;
Lladmerydd yr Efengyl;
Gweinidog da a ffyddlon i Iesu Grist.

Er bod hiraeth yn ein calonnau, mae yna hefyd ddiolchgarwch. Diolchgarwch am ei fywyd a'i weinidogaeth ac am y fraint o gael cydweithio ag ef.

"Diolch i Ti yr Hollalluog Dduw
Am yr Efengyl Sanctaidd".

Efengyl yr oedd ef yn gynnyrch mor odidog ohoni ac a'i trosglwyddodd yn ei holl ogoniant.

"O aed, o aed yr hyfryd wawr
ar led,
Goleued ddaear gyfan".

D.Eurig Evans, Ysgrifennydd
y Tabernacl, Caerdydd.

# DINAS POWYS

Yr Ysgol Feithrin

Bu'r wythnos gyntaf o Fawrth yn un ddigon prysur i'r Ysgol Feithrin. Bu'r papurau lleol i gyd yma dros Ŵyl Dewi yn tynnu lluniau'r plant yn eu gwisgoedd traddodiadol. Ar ddiwedd yr wythnos bu camerau Teledu Cymru yn ceisio denu gwên a chân oddi wrth 23 o blant amheus ar gyfer y rhaglen Ffalabalam.

Y Twmpath

Ar Fawrth 8fed cynhaliwyd ein Twmpath Blynyddol yn Neuadd y Plwyf. Cadwodd Vernon Llewelyn drefn ardderchog ar y dawnswyr ac nid oedd hynny'n waith hawdd gan fod y Neuadd yn llawn a phawb yn dawnsio tan hanner nos.

Paratowyd lluniaeth ardderchog gan y mamau yn ôl eu harfer, o dan ofal Moira Owen, Gill Lewis a Pat Samuel. Yn ystod y noson cyflwynodd y Cadeirydd, Mr. Gerwyn Williams, flodau i'r athrawes, Mrs. Owen, oddi wrth rieni'r Ysgol Feithrin i ddiolch iddi am ei gwasanaeth diflino ar hyd y flwyddyn. Rydym yn ffodus iawn ynddi hi a Miss Siân Locke sy'n ei chynorthwyo.

Noson hyfryd i goroni wythnos dda yn Ninas Powys.

Y Gymdeithas Gymraeg

Ddydd Sul, Mawrth 2, 1980, cynhaliwyd ein gwasanaeth Gŵyl Dewi yng Nghapel Soar y Fro yng Ngwenfô. Roedd y capel bach yn llawn a'r merched bach i gyd yn eu gwisgoedd traddodiadol.

Cymerwyd y rhannau arweiniol gan y Cadeirydd, Rhys Davies, ac yna cawsom ddarlleniadau gan Alun Owen, Rhian Owen a Lowri Jones. Fe ganodd y côr plant yn beraidd i gyfeiliant gitâr Gill Lloyd, a bu hithau a Moyra Owen yn canu penillion a Rhian Owen yn cyfeilio. Fe'n hanerchwyd ni gan Seiriol Davies a chloriannwyd y gwasanaeth gan Islwyn Jones.

Y diwrnod canlynol, cynhaliwyd ein cinio blynyddol yng Nghlwb BP Plastics yn Sili. Roedd dros gant yn bresennol, a nifer fawr o ddysgwyr yn eu plith, rai ohonynt eisoes wedi 'croesi'r bont'. Roedd hyn yn sicr yn deyrnged i'n Cadeirydd, Rhys, sy'n gwneud cymaint o waith llwyddiannus i hybu'r iaith yma ar odre'r fro.

Mae'n naturiol felly mai athro diflino arall oedd ein gŵr gwadd, sef y dihafal Gwilym Roberts. Cawsom ganddo araith ymarferol, - sef Deg Gorchymyn y Cymro Da - ac ar ddiwedd ei araith rhoddodd her i ni, sef creu Uwch-adran neu Aelwyd yn ein pentref ni.

Noson i'w chofio oedd hon, gyda Rhian Owen yn ein cadw yn y cywair iawn wrth ganu ei thelyn mor fedrus.

# YR EISTEDDFOD RYNG-GOLEGOL

Ar ôl misoedd o ymarfer caled daeth yr Eisteddfod Ryng-Golegol unwaith eto ac, fel arfer, fe aeth yn rhy gyflym! Aeth tua hanner cant ohonom i Abertawe i herio'r colegau mawr.

Roedd pawb yn edrych ymlaen at yr hwyl a'r cystadlu brwd oedd siwr o fod rhwng y colegau. Fel arfer roedd Bangor ac Aberystwyth yn gryf iawn ond roedd Abertawe wedi gweithio'n galed hefyd ac yn benderfynol o wneud yn dda gan mai nhw oedd y tîm cartref.

Mae gennym resi o atgofion am yr Eisteddfod (ddim i gyd yn ymwneud â'r cystadlu!). Roedd criw Caerdydd yn benderfynol o wneud yn well na llynedd ac roedd pawb wedi <u>ceisio</u> paratoi yn dda. Fel arfer roedd yna boeni a phanics mawr ar y funud olaf - heb ddysgu geiriau'r caneuon, heb sgwennu'r araith, ac ati. Yn wahanol i'r llynedd, cafwyd mwy o bobl i gystadlu gan ysgafnhau'r baich ar rai pobl a rhoi mwy o siawns inni ennill y marciau a oedd wedi'n hosgoi ni y llynedd!

Erbyn diwedd yr Eisteddfod, am 3 o'r gloch fore Sul, roedd pawb wedi blino'n lân ond yn hapus yn y wybodaeth eu bod wedi gwneud reit dda. Aberystwyth enillodd y dydd efo Abertawe yn ail, Bangor yn drydydd a minnau'n bedwerydd efo 488 o farciau (dwbwl cyfanswm y llynedd!).

Wrth gysgu'r noson honno daeth llu o atgofion yn ôl i mi. Wnâi byth anghofio perfformiad gwych "Llanciau Lleu" Aberystwyth yn y parti gwerin, i feibion, na pherfformiad yr "Hoelion Wyth" yn yr un gystadleuaeth i ferched. Cafwyd dwy araith dda gan Esyllt Maelor ac Anita George o flaen cynulleidfa fywiog! Canu ffraeth ac ystwyth gan gorau cymysg Aberystwyth a Bangor, a chanu cryf côr meibion Aberystwyth. Cafwyd cân bop ganiadwy iawn gan "Roland" o Abertawe a chân serch fendigedig gan Lina Griffiths o Aberystwyth. Atgofion per!

Mae mwy i'r 'Steddfod na'r cystadlu. Mae'n gyfle i gymdeithasu, fel pob Eisteddfod arall. Cyfarfod hen ffrindiau, gwneud ffrindiau newydd a hel clecs am bobl! A'r ochr bwysicaf efallai, dyma benwythnos hollol Gymreig lle ni chlywir ond Cymraeg ar wefusau pawb. Mae'n siwr fod myfyrwyr Seisnig Abertawe wedi synnu wrth weld cymaint o Gymry.

Wedi'r penwythnos ceir teimlad da o undod rhwng y myfyrwyr Cymraeg (er bod ychydig o wrthdrawiad rhwng un neu ddau ohonynt!). Mae'r teimlad yma yn rhoi hyder i'r myfyrwyr Cymraeg yn eu colegau unigol, yn enwedig ni yn y de lle mae cymaint o Saeson. Roedd gweld y môr o sgarffiau o Aberystwyth a Bangor yn ddigon i godi calon unrhyw Gymro, ac ni chanwyd "Hen Wlad fy Nhadau" yn well erioed nag ar ddiwedd y 'Steddfod hon.

Felly, 'Steddfod arall lwyddiannus efo digon o gyfeillgarwch a safon uchel o gystadlu. Cyn diweddu, mae'n rhaid i mi ddiolch i holl fyfyrwyr Caerdydd a weithiodd mor galed yn ymarfer ar gyfer yr Eisteddfod. Fe ddangoswyd i'r colegau eraill fod Caerdydd yn gallu cystadlu ar yr un lefel pan fyddan nhw'n trio! Felly, diolch yn fawr i bawb ac edrychwn ymlaen at Aberystwyth ym 1981!

Peter R.Davies, Trefnydd Eisteddfod.




*Anfonwch eich defnyddiau!*

**O hyn ymlaen, wnewch chi anfon defnydd i Afallon, 11 Clos Hendre, Llandaf CF5 2HT.** *Dyw hi byth yn rhy gynnar* **a rhaid i'r defnydd fod yn ein dwylo fan bella ERBYN YR 8fed O BOB MIS. Dim ond rhywbeth eithriadol iawn a ddylai fod yn hwyrach, hyd at yr 15fed o'r mis.**

**Cofiwch am Y DINESYDD**

**GWESTY LLETY CYMRO**

143 HEOL YR EGLWYS GADEIRIOL CAERDYDD. FFÔN 399659

**GWELY A BRECWAST BWYD A GWIN DA**

TRWYDDED PRESWYL

# Darganfod y Colledigion?

Mae'n debyg na chlywsoch am yr Enwogion Colledig - nid heb reswm chwaith, achos tan yn ddiweddar roeddent yn golledig. Daethant i olwg y cyhoedd mewn dawns yn yr Aelwyd sbel fach yn ôl, ac roedd pethe'n edrych yn dda. I gadarnhau hynny, mynnodd Y Dinesydd air â dau aelod o'r grwp, Denis Bwrdd a Gaz.

"Ydyn, mae pethe'n edrych yn dda iawn," meddai Gaz, "Problem grwpiau Cymru yw cael gafael ar waith, ond mae digon o hwnnw ar gael inni ar hyn o bryd, am ein bod wedi creu math unigryw o ganu Cymraeg, fel y Trwynau Coch a'u 'rocecer'. Enw'n miwsig newydd ni yw 'roc anghywir gyda'r odl dwp'".

"O ble ddaeth yr enw hwn?"

"Wel, syniad Dafydd Anghywir, ein gitarydd blaen, oedd hyn, ac yntau a feddyliodd am enw'r grwp hefyd. Mae'n gerddoriaeth echrydus o dda".

"Pwy sy'n sgwennu'r deunydd?"

"Pawb, ar wahan i'r drymiwr, Paul Hackling, sy'n ddrymiwr arbennig. Mae dylanwadau amrywiol ar ein deunydd, ond yn bennaf Lon Reed, Tom Petty, Police, Hergest, Gary Bevan, Caws Caerffili, a Cliff Richard".

"Mae'r dylanwadau hyn yn amlwg yng nghaneuon y grwp, mae'r arddull '2-tone' boblogaidd yn nodweddiadol ohonynt hefyd, ac mae eu sioe lwyfan economaidd yn adlewyrchu cerddoriaeth 'ska' a'r don newydd, onid yw?"

"Ydy, hynny yw, di-fodolaeth ar hyn o bryd, am fod ein hoffer llwyfan yn warthus, ond dwi ar fin prynu amp newydd o'r diwedd, ac mae'r grwp ar y cyd wedi gwario £1,500 ar ddillad, er nad yw hyn yn amlwg ar lwyfan", meddai Denis.

"Ie, fe hoffem ni weld llai o grwpiau yng Nghymru sy'n edrych yn dwp ar lwyfan, ond o safbwynt bersonol y grwp hoffem ni weld miliynau o ferched yn rhedeg ar ein hôl, gwneud £1m yn ystod y dair blynedd nesaf, yn ogystal â recordio sesiwn i HTV".

Mae gan y grwp brofiad o'r cyfryngau eisoes. Maent wedi ymddangos ar raglen gan y BBC, ac wedi recordio sesiwn i 'Sosban', o dan oruchwyliaeth Eurof Williams a Ken, y peiriannydd.

"Gwnaeth Eurof a Ken waith da iawn inni - rydym yn bur ddiolchgar iddyn nhw".

Aelodau'r grwp yw Gaz - bas, Denis Bwrdd - llais, Dafydd Anghywir - gitâr, Argws - gitâr, a Paul Hackling - drymiau. Daliwch ati fechgyn, a phob lwc ar gyfer y dyfodol oddi wrth ddarllenwyr 'Y Dinesydd'.

Os hoffech chi logi'r grwp, cysylltwch â Gareth Jones (959 243505).

Dafydd Saer.



- Yr Enwogion yn mwynhau jôc gydag Eurof Williams. O'r dde - Dafydd Anghywir, Paul Hackling, Argws, Gaz, Denis Bwrdd ac Eurof.

# *HANNER CAN MLYNEDD YN ÔL*

Manion a godwyd o rifynnau'r Western Mail am fis Mai, 1930

Teitl y papur y pryd hwnnw oedd "The Western Mail and South Wales News". Yr oedd y Western Mail (papur Toriaidd) wedi llyncu'r South Wales Daily News (papur Rhyddfrydol) yn y dau-ddegau. Arwydd oedd y teitl dwbl o'r uniad oedd newydd ddigwydd. Bellach mae crombil y Western Mail wedi llwyr-dreulio ei ysglyfaeth a'r South Wales News wedi diflannu am byth, hyd yn oed o'r teitl.

................

Sasiwn y De o'r Methodistiaid Calfinaidd yn cyfarfod yn y Borth a phasio penderfyniad "by an overwhelming majority" i baratoi drafft o fesur preifat i'w gyflwyno i'r Senedd yn datgan erthyglau ffydd a chyfansoddiad yr Eglwys. Y Parch R.J.Rees, Caerdydd oedd yn cynnig y penderfyniad a'r Prifathro Owen Prys yn eilio.

Ai dyma ddechrau'r newid o fod yn Enwad y Methodistiaid Calfinaidd i fod yn Eglwys Bresbyteraidd Cymru? A newid erthyglau'r Gyffes Ffydd?

................

"Arrangements for the Royal National Eisteddfod at Llanelly (sic) are well in hand. The pavilion is to accommodate over 20,000 people. It is the largest yet built for the Eisteddfod". (5,000 yw cynhwysedd y Pafiliwn presennol).

..................

Llythyr at y Golygydd. "Is pebyll plural?"

Llythyr dysgedig oddi wrth Gwyddonwy Evans, Docks Library, Cardiff, yn trafod enw Cilybebyll ger Castell Nedd.

Tybed a oes rywrai ymhlith darllenwyr Y Dinesydd yn cofio'r cyfaill ysgolheigaidd o'r Docks Library?

# O'R TABERNACL

Bu nifer o'r ffyddloniaid yn yr ysbyty am driniaeth yn ddiweddar - Bethan, merch Dr. a Mrs. Ron Thomas yn Ysbyty Llandocha, Mrs. L. Mordey, Mrs. Ifor Morgan, Mr. Howard John a Mr. Tecwyn Jones yn Ysbyty'r Waun. Da yw gweld Bethan a Mrs. Mordey nôl yn y capel gyda ni a'u gwên mor serchus ag erioed. Mae Mr. John erbyn hyn yn gwella yn awyr iach Sir Benfro. Bu'r Parchedig W.H. Davies yn yr ysbyty hefyd. Dymunwn iddynt oll adferiad llwyr a buan.

Llongyfarchwn ein gweinidog ar gychwyn ei bedwaredd flwyddyn ar ddeg o weinidogaeth yn y Tabernacl. Llongyfarchwn ef hefyd a Mrs. Williams ar ddathlu ohonynt eu priodas arian yn ystod mis Ebrill, a Mr. a Mrs. Mansel Evans ar ddathlu ohonynt hwythau eu priodas rhuddem.

Yn ddisymwyth dechrau Mawrth daeth y newydd trist am farwolaeth ein cyn-weinidog y Parchedig D. Myrddin Davies, B.A.,B.D.. Roedd wedi dihoeni ers peth amser ond yn annisgwyl y daeth y diwedd. Traddododd Ysgrifennydd y Tabernacl deyrnged i Mr. Davies yn ystod y Cwrdd Coffa a gynhaliwyd ar nos Iau, Mawrth 20fed), (fe'i gwelir mewn man arall yn y rhifyn hwn). Yn yr un wythnos daeth y newydd am farwolaeth chwaer hynaf y Tabernacl sef Mrs. M.A. Powell, Radyr, mam y Barnwr Dewi Watkin Powell. Roedd hithau wedi gwanhau dros y ddwy flynedd diwethaf ac aeth yn dawel ar y nos Sul.

Ers rhai blynyddoedd mae swyddogion y capel wedi bod yn pryderu am gyflwr y ffenestri. Maent yn dirywio'n gyflym. Er llawer o chwilio amhosibl oedd cael cwmni o Gymru i ymgymryd â'r gwaith o'u hadnewyddu, felly rhaid oedd troi at gwmni o Lundain.

Mae adeilad y Tabernacl wedi cael ei gofrestru fel adeilad â diddordeb hanesyddol a phensaernïol felly mae'n gyfrifoldeb arnom ni fel aelodau i drosglwyddo'r Tabernacl i'n plant ac i blant ein plant. Bydd yn rhaid codi rhyw hanner can mil o bunnau. Ar wahan i gyfraniadau'r aelodau at y gronfa mae nifer o bethau ar y gweill i godi arian. Bydd elw'r cyngerdd 'Dioddefaint Sant Ioan'ddiwedd mis Ebrill yn mynd i chwyddo'r gronfa gydag elw coffi boreau Sadwrn.

# AWEN Y DDINAS

EIRA UNDYDD

Amhosibl yw llwyr synhwyro artaith  
Yr artist fu'n lliwio  
Ddoe a'i frws feysydd y fro,  
Heddiw, o'u fandaleiddio.

Ar degwch ei greadigaeth isod  
Arllwyswyd unffurfiaeth;  
Enfys wych o'r gynfas aeth  
Oherwydd yr ymyrraeth.

Ond trechir gwaith dihiryn, - try'r tro hurt  
I'r artist yn sbardun;  
Llawn hiwmor bydd yfory'n  
Adfer dillynder y llun.

DE MORGANNWG

Brinned eu haul yw'r bryniau diolwg  
O'i chwmpas, - dod ma's o gymoedd y mwg  
I ymyl Llanhari, i drum Llaneirwg,  
Yn ddigywilydd o hardd ei golwg  
Er llanw Y Fro i Wynllŵg â rhychwant  
Ei mawr ogoniant wna De Morgannwg.

T. Arfon Williams.

# Darlledu Caerdydd

Er gwaethaf siomedigaethau ynglŷn â'r bedwaredd sianel, ym myd radio mae'r Gymraeg wedi ennill ei lle teilwng. Ychwanegwyd yn ddiweddar at y darpariaeth wrth i orsaf newydd y ddinas, Darlledu Caerdydd, gychwyn.

Ar hyn o bryd darlledir y penawdau yn Gymraeg unwaith bob awr a cheir rhyw hanner awr o Gymraeg fin nos (bwriedir ehangu yr oriau Cymraeg i awr a hanner bob nos erbyn canol Mehefin).

Mae Jen Poston, sy'n cymryd rhan flaenllaw yn y sioe foreol yn ferch i Emlyn Walters o Glyn-nedd, a fu'n amlwg yn y byd rygbi proffesiynol. Addysgwyd Jen yn Ysgol Merched Castell Nedd a Phrifysgol Abertawe, a bu'n gweithio am gyfnod fel ymchwilydd i 'Dechrau Canu, Dechrau Canmol'. Un o ferched Caerdydd yw Eleri Evans, sy'n gweithio gyda Jen yn yr ystafell newyddion. Bu Eleri yn gweithio i 'Woman's Own' yn Llundain cyn dychwelyd i'w chynefin ar ôl priodi. Y drydedd Gymraes yn yr Adran Newyddion yw'r ysgrifenyddes, Mair James, sy'n darllen y penawdau newyddion yn y prynhawn. Cardi yw Mair o Gwmaman ger Llanbed a bu am gyfnod yn ysgrifenyddes i Undeb Myfyrwyr Aberystwyth.

Yn yr Adran Gyflwyno, mae dau Gymro Cymraeg, sef Eifion Jones o Lanberis a fu'n gweithio i Radio Ysbyty Môn ac Arfon ym Mangor cyn symud i Gaerdydd i weithio i'r orsaf newydd. Mae Eifion yn cyflwyno chwech rhaglen yn Saesneg a dwy yn Gymraeg ar yr orsaf. Hefyd ar y staff cyflwyno mae Vaughan Roderick, un arall o blant Bryntaf. Gweithio i'r BBC oedd Vaughan cyn symud i'r orsaf, a fe sy'n gyfrifol am y rhaglen Materion Cyfoes Cymraeg a ddarlledir bob nos Lun. Ysgrifenyddes yr Adran Gyflwyno yw Carol Davies o Bentre'r Eglwys a aeth i ysgolion Garth Olwg a Rhydfelen.

Y llais arall a glywir yn Gymraeg yw Andy Bell sy ar hyn o bryd yn drysorydd sabathol i Undeb Myfyrwyr Abertawe. Sais yw Andy sy wedi dysgu Cymraeg gyda chymaint o lwyddiant nes iddo gael y baich o drefnu'r Eisteddfod ryng-golegol eleni.

Clywir lleisiau eraill yn achlysurol ar yr orsaf, a'r gobaith yw i greu yn y pendraw orsaf a fydd yn adlewyrchu pob agwedd ar fywyd Cymraeg y brifddinas.




# LLYFR 3

HTV CYMRU WALES

Llyfr y flwyddyn i'r plant - gan lyfrwerthwyr led-led Cymru




TIM PELRWYD YSGOL LLANHARI. ENILLWYR CYSTADLEUAETH YR URDD O DAN 15 OED. Catherine Owen, Jane Moloney, Ceri Parson, Tracey Lloyd, Julie Lewis, Rhian Goodfellow, Samantha Marshall, Denise Owen, Heddwen Norton.





# Ffenestr-siop
# Y SIOP I CHI...

Pan fyddwch chi'n ystyried gwelliannau i'r cartref, ac yn wynebu'r broblem o gael ffenestr neu ddrws.

Beth am... ddod i ymweld â'r arbenigwyr yng Nghanolfan Ffenestri De Cymru a gweld bron 100 mlynedd o brofiad o wneuthur ffenestri ar waith?

...weld y detholiad ehangaf posib o ffenestri a drysau patio o ansawdd dda, a'u gweld yn cael eu gwneud yn y fan a'r lle?

...weld sut y gellir arbed ar filiau gwresogi drwy dorri i lawr ar y gwres a gollir a chynyddu gwerth eich tŷ ar yr un pryd?

...dderbyn cyngor ar osod cyfarpar i mewn eich hunan — gellwch arbed 50% arall felly.

...edrych ar ein telerau hur-bwrcas?

**Yn yr amserau caled hyn, synhwyrol yw edrych CYN prynu.**

## CANOLFAN FFENESTRI DE CYMRU

Heol Curran, Caerdydd. tel. 388555
Llun-Gwen 9a.m. hyd 5p.m.,
Sad 9a.m. hyd hanner dydd.
Croeso mawr i'r Cyhoedd a'r Fasnach.

JONWINDOWS
— yr enw y gellwch ymddiried ynddo JWd
(Aelod o Grŵp John Williams o Gaerdydd Cyf.)


Cyhoeddwyd gan Bwyllgor Y Dinesydd. Argraffwyd gan Fingerprints, 56 Mackintosh Place, Caerdydd.